## Sul y Genhadaeth Gartref

*Medi 16 2012*

Sul y Genhadaeth Gartref yw'r diwrnod yng Nghalendr yr Eglwys pan fo'r gymuned Gatholig yng Nghymru a Lloegr yn cael ei gwadd i weddïo dros, dathlu a chefnogi, gwaith efengylu yn y ddwy wlad.

Mae'n digwydd eleni ar Fedi 16 a'r thema yw 'Hyder yn y Ffydd.'

Mae Sul y Genhadaeth Gartref ynghlwm yn agos wrth agoriad Blwyddyn y Ffydd a fydd yn agor dim ond ychydig dros dair wythnos ar ôl Sul y Genhadaeth Gartref ar Hydref 11.

Mae'r Gwir Barchedig Kieran Conry, Cadeirydd Adran Efengylu a Chateceiddio Cynhadledd yr Esgobion yn pwysleisio sylfaen ysgrythurol y diwrnod:

'Un o bwrpasau y Flwyddyn yw gwadd Catholigion bedyddiedig i ailddarganfod a magu hyder yn eu ffydd. Dyna dystiolaeth gref Pedr yn yr Efengyl ar gyfer Sul y Genhadaeth Gartref, wrth iddo ddatgan "Ti yw y Crist' (Marc 8:27-35)

Po fwyaf o hyder fydd gennym yn Iesu Grist fel ein Harglwydd a Gwaredwr, mwya'n byd y byddwn yn barod i gyfrannu o drysor ein Ffydd.'

## Casgliad

Bydd yr ail gasgliad y gwahoddir plwyfi i'w cynnal ar Sul y Genhadaeth Gartref yn mynd yn uniongyrchol i gefnogi gwaith Adran Efengylu a Chateceiddio Cynhadledd yr Esgobion, gan ddefnyddio Desg y Genhadaeth Gartref fel un offeryn pwysig. Llynedd fe alluogodd yr arian a dderbyniwyd o'r casgliad inni weithredu prosiectau efengylu arwyddocaol.

## E-Briffio am y Genhadaeth Gartref

Fe anfonir dalen adnoddau yn electronig ac am ddim yn fisol gyda'r wybodaeth a'r newyddion diweddaraf am yr efengylu a'r adnoddau sydd ar gael.

Os hoffech ei derbyn anfonwch e-bost atom.

## Perthnasol

cbcew.org.uk/home-mission
Desg Cenhadaeth Gartref Cynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr.

cbcew.org.uk/evangelisation-and-catechesis
Adran Efengylu a Chateceiddio.

## Dolennau

Darnau o'r Ysgrythur ar gyfer Sul y Genhadaeth Gartref 2012
http://www.liturgyoffice.org.uk/Calendar/Sunday/OT4Sunday.shtml#OT24

Home Mission Sunday Photostream
http:/www.flickr.com/photos/catholicism/sets/72157630665065138/

Catecism yr Eglwys Gatholig – Nodweddion y Ffydd
http:/www.vatican.va/archive/ENG0015/_PX.HTM